



# ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig i gau Ysgol Llanfynydd, (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni.

RHAGFYR 2015

## Myneqai

Rhif	Adran	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Y Cynnig a'r ymgynghoriad	3
3	Digwyddiadau / Cyfarfodydd Ymgynghori	4
4	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
5	Ffurflenni ymateb a gohebiaeth	12
6	Ymateb gan Estyn	12
7	Ymateb gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol	13
8	Ymateb gan Lywodraethwyr	14
Atodiad A	Rhestr o rai sy'n derbyn y Ddogfen Ymgynghori	
Atodiad B	Crynodeb o faterion a godwyd mewn cyfarfodydd	
Atodiad C	Canfyddiadau'r Cyngor Ysgol	
Atodiad D	Cofnodion Pennaeth/Llywodraethwyr	
Atodiad E	Crynodeb o Faterion ac Ymatebion	
Atodiad F	Crynodeb o ymatebion i'r Ffurflen Ymateb Safonol	
Atodiad 3:	Ymateb Estyn i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad 3:	Ymateb Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad 3:	Ymateb y Llywodraethwyr i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori trefniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigydd (y Cyngor) yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd;
- Ymateb i'r rhain trwy eglurhad.
- Amlinellu barn Estyn (fel y darperir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) o ran rhinweddau cyffredinol y cynnig.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu ar unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â'r cynnig.

## 2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ar ddydd Mawrth 16 Mehefin, 2015, penderfynodd Cabinet:

Agor cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer Ysgol Llanfynydd gydag adroddiad i'w ddarparu i'r Cabinet yn y dyfodol.

2.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ddydd Mercher 21 Hydref, 2015 a daeth i ben, ddydd Mercher 2 Rhagfyr 2015.

2.3 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ddydd Mercher 21 Hydref 2015, a darparwyd dolen i'r dogfennau ymgynghori i fudd-ddeiliaid. Mae rhestr gyflawn o dderbynwyr i'w gweld yn **Atodiad A.**

2.4 Cyhoeddwyd fersiwn arbennig o'r ddogfen ymgynghori, ar gyfer plant ysgol gynradd ar wefan Cyngor Sir y Fflint hefyd a chafodd ei ddarparu i bob disgybl yn Ysgol Llanfynydd. Darparwyd copiâu o'r ddogfen hon hefyd i gynghorau ysgol yn Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hôb a hefyd Ysgol Gynradd Bwlchgwyn. Mae copiâu o'r ddau fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr adran moderneiddio ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint ar y ddolen ganlynol: -

<https://t.co/Cn5xTEZMVU>

2.5 Dosbarthwyd copiâu caled o'r dogfennau ymgynghori i Ysgol Llanfynydd, Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hôb a hefyd Ysgol Gynradd Bwlchgwyn i bobl eu gweld os nad oeddent yn gallu cael mynediad i'r wefan. Roedd copiâu caled hefyd ar gael ar gais a naill ai'n cael eu postio neu eu casglu o Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

- 2.5 Roedd blwch post ar gael yn Ysgol Llanfynydd ar gyfer postio ymatebion i'r ymgynghoriad a'u casglu gan aelod o'r tîm moderneiddio ysgolion.
- 2.6 Cynhyrchodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol) i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu barn. Roedd hyn yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb symlach. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei thrawsnewid yn arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r pecyn ar-lein survey monkey. Cafodd dolenni i'r arolwg eu cyhoeddi ar y wefan hefyd.
- 2.7 Derbyniodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, dogfennau atodol, yn ogystal â dolen i'r arolwg ar-lein ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad ar 21 Hydref 2015.
- 2.8 Cynhyrchwyd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### **3.0 Digwyddiadau / cyfarfodydd ymgynghori**

- 3.1 Er nad yw'n ofyniad o dan y Cod, cynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd ymgynghori ar wahân ddydd Llun 23 Tachwedd, 2015 gyda:

#### **Athrawon a staff cymorth a chorff llywodraethu Ysgol Llanfynydd**

Roedd swyddogion o Gyngor Sir y Fflint yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Hysbysodd y swyddogion y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd am y broses hyd yn hyn a beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Roedd cyfle i'r rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau a mynegi eu safbwyntiau a'u barn.

Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y digwyddiadau/cyfarfodydd ymgynghori hyn, ynghyd â'r ymatebion a roddwyd ar y pryd yn **Atodiad B**.

#### **Rhieni/gofalwr/gwarcheidwaid i ddisgyblion yn Ysgol Llanfynydd**

Cynhaliwyd y cyfarfod rhieni/ gofalwyr/ gwarcheidwaid yn Ysgol Llanfynydd. Derbyniodd pob rhiant/ gofalwr/ gwarcheidwad lythyr yn cynnwys y dyddiad, amser a'r lleoliad yn gofyn iddynt gofrestru eu presenoldeb yn y digwyddiad.

Roedd y digwyddiad ymgynghori yn caniatáu i rieni/ gofalwyr/ gwarcheidwaid gwrdd â chynrychiolwyr y Cyngor a gofyn cwestiynau neu godi materion a oedd yn berthnasol iddyn nhw fel unigolion a hefyd y farn ehangach ynghylch yr ysgol a'r gymuned.

Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y digwyddiadau/cyfarfodydd ymgynghori hyn, ynghyd â'r ymatebion a roddwyd ar y pryd yn **Atodiad B**.

- 3.2 Trefnwyd digwyddiad ymgynghori cyngor ysgol ar gyfer Ysgol Llanfynydd. Cafodd y digwyddiad ei hwyluso gan y Cydlynnydd Ysgolion iach y mae eu swydd yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â chynghorau ysgol. Roedd aelod o'r tîm moderneiddio ysgolion hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd cyngor ysgol.
- 3.3 Trefnwyd digwyddiadau ymgynghori hefyd gyda'r Cynghorau Ysgol yn Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, Ysgol Estyn, Yr Hôb, ac Ysgol Gynradd Bwlchgwyn. Roedd aelod o'r tîm moderneiddio ysgolion hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd cyngor ysgol. Dewisodd Ysgol Gynradd Abermorddu, hwyluso eu cyfarfod eu hunain gyda'r Cyngor Ysgol i drafod y cynnig.

Amlinellir canfyddiadau cyfarfodydd y Cyngor Ysgol yn **Atodiad C.**

- 3.4 Cyfarfu'r Tîm Moderneiddio Ysgolion gyda Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgolion cyfagos a effeithir arnynt. (Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, Ysgol Gynradd Abermorddu, Ysgol Estyn, Yr Hôb a hefyd Ysgol Gynradd Bwlchgwyn).

Amlinellir cofnod o gyfarfodydd y Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn **Atodiad D.**

#### 4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 4.1 At ei gilydd, daeth 153 o ymatebion i law cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Daeth nifer o ymatebion i law ar ffurflenni ymateb electronig, negeseuon e-bost a llythyrau.
- 4.2 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd pobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad (pob un ar-lein)	35
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	40
Llythyrau a negeseuon E-bost	25
Llythyrau a negeseuon e-bost Plant a Phobl Ifanc	35
Ymatebion Cyngor Ysgol	5
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgolion	5
Clip YouTube	1
Ymateb yr Undeb	1
Ymateb Estyn	1
Ymateb AC ac AS	5
<b>Cyfanswm y cysylltiadau</b>	<b>153</b>

Rhestrir nifer y cysylltiadau a wnaed cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad ar y dudalen nesaf.

Dull cysylltu	Cyn yr Ymgynghoriad	Yn ystod yr Ymgynghoriad	Cyfanswm y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflenni Ymateb i'r Ymgynghoriad (ar-lein)	0	35	<b>35</b>
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	0	40	<b>40</b>
Llythyrau a negeseuon E-bost	10	15	<b>26</b>
Llythyrau a negeseuon e-bost Plant a Phobl Ifanc	35	0	<b>35</b>
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgolion	0	5	<b>5</b>
Ymatebion y Cyngor Ysgol	0	5	<b>5</b>
Clip YouTube	1	0	<b>1</b>
Ymateb yr Undeb	0	1	<b>1</b>
Ymateb Estyn	0	1	<b>1</b>
Ymatebion ACau ac ASau	2	3	<b>5</b>
<b>Cyfanswm nifer y cysylltiadau</b>	<b>48</b>	<b>105</b>	<b>153</b>

#### 4.3 Dadansoddiad o Wybodaeth Deisebu

Rhif	Math o Ymateb	Nifer o lofnodion
1	Deiseb ar-lein	1175
2	Deiseb mewn llawysgrifen	433
Cyfanswm		1608

#### 4.4 Amlygwyd y materion canlynol mewn dadansoddiad o ba mor aml y caiff materion eu codi yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth oedolion:

Safle	Mater	Disgrifiad	Pa mor aml y codwyd mater
1	Dogfen Ymgynghori	Nid yw'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn gywir. Mae'r wybodaeth wedi dyddio. Ni fyddai'r nifer y disgyblion yn yr ysgol yn ffitio yn unrhyw un o'r ysgolion eraill. Mae'r adroddiad Estyn ar gyfer yr ysgol yn hen. Mae'r	42 sylw

		ddogfen yn dangos rhagfarn ac yn negyddol. Mae'r wybodaeth ar gyfer atgyweirio'r to yn ymddangos yn uchel ac yn anghywir. Nid yw Capasiti'r Ysgolion yn edrych yn gywir. Mae'r maen prawf adnoddau sy'n lleihau yn ddiffygiol. Nid yw'r amcanestyniadau ar gyfer yr ysgol yn edrych yn gywir.	
2	Effaith ar y gymuned	Byddai cau'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar y gymuned leol. Mae'r ysgol wrth galon y gymuned. Byddai cau'r ysgol yn lladd ysbryd y gymuned. Mae ysgol wedi bod yn y pentref ers cannoedd o flynyddoedd.	35 sylw
3	Agweddau cadarnhaol yr ysgol ei hun	Mae sawl peth cadarnhaol am yr ysgol, mae'n ysgol deuluol, ac mae'n ysgol gymunedol hyfryd. Mae'r ysgol mewn adeilad hyfryd. Mae'r adeilad yn cydymffurfio â DDA. Mae gan yr ysgol staff addysgu cefnogol hyfryd. Mae'r trefniant Consortiwm Castell Alun yn gryf iawn. Cysylltiadau cryf yr ysgol gyda diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg.	34 sylw
4	Awgrymiadau eraill: Ffederasiwn ar gyfer yr ysgol	Dylai'r ysgol allu archwilio creu Ffederasiwn gydag Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn. Mae tystiolaeth y byddai Ffederasiwn yn gweithio gan fod y Pennaeth presennol yn cael ei rannu ar hyn o bryd gydag Ysgol Parc Y Llan.	32 sylw
5	Datblygiad Tai	Nid yw datblygiadau tai lleol yn yr ardal leol wedi cael eu hystyried yn llawn.	16 sylw
6	Darpariaeth amgen a safonau addysgol	Yr unig ysgol arall sy'n bodloni'r safonau cyfredol o ran addysgu yw Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn. Nid oes digon o le i'r cohort llawn drosglwyddo i Barc y Llan.	15 sylw
7	Traffig a chludiant	Bydd traffig yn cynyddu yn ardal Abermorddu. Nid yw'n ymddangos fod y costau cludiant yn gywir.	10 sylw
8	Effaith ar ddisgyblion	Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion presennol. Pryder y bydd grwpiau cyfoedion a brodyr a chwirydd yn cael eu gwahanu, nid yw lles emosiynol wedi ei ystyried, torri hawliau'r plentyn y Cenhedloedd Unedig.	8 sylw
9	Pontio a'r amserlen	Pryder ynghylch y cyfnod pontio i ddisgyblion. Mae amserlen y cynnig yn bryder gyda dim ond y tymor i wneud	8 sylw

		penderfyniad ynghylch pa ysgol arall i anfon plant.	
10	Cysylltiadau teuluol gyda'r ysgol	Cais y dylai brodyr a chwiorydd allu mynychu'r ysgol hon. Cysylltiadau teuluol gyda'r ysgol ac mae nifer o deuluoedd wedi mynychu'r ysgol yn hanesyddol. Mae'r ysgol wedi bod yn y pentref ers cannoedd o flynyddoedd.	7 sylw
11	Mae ysgolion eraill wedi eu gorlenwi	Dylai ysgolion poblogaidd gorlawn anfon eu plant i'r ysgol hon. Dylid ein helpu i hyrwyddo'r ysgol.	7 sylw
12	Effaith ar Staff Addysgu	Pryder am yr hyn fydd yn digwydd i'r staff Addysgu a chefnogi yn yr ysgol.	6 sylw
13	Gwybodaeth ariannol	Mae'n ymddangos fod y modelu ariannol yn anghywir. Sut mae'r disgyblion o Wrecsam wedi'u hystyried wrth gyllido? Mae'r ysgol wedi bod yn cael gormod o gyllid ers nifer o flynyddoedd.	5 sylw
14	Effaith y bygythiad o gau	Mae'r bygythiad o gau yn gwneud i rieni eraill beidio â dewis yr ysgol hon, gan ei gwneud yn anodd i leihau ein lleoedd heb eu llenwi.	4 sylw
15	Sylwadau yn cefnogi'r cynnig	Yn cefnogi'r cynnig. Mae rhesymeg glir dros gefnogi'r cynnig.	3 sylw
16	Anghenion Dysgu Ychwanegol	Mae canran uchel o ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol.	3 sylw
17	Gwisg ysgol a bagiau newydd	Sut fyddwn ni'n talu am wisg ysgol a bagiau newydd?	3 sylw
18	Proses dderbyn	Nid oedd y broses dderbyn ar gyfer yr ysgolion eraill yn glir. Nid yw'n glir sut y byddwn yn rheoli'r risg na fydd modd i rieni ddewis eu hysgol a ffafir.	3 sylw
19	Gofal plant	Nid oes unrhyw glwb ar ôl ysgol ym Mharc Y Llan, Treuddyn, ond mae un yn yr ysgol hon. Mae gofal cofleidiol ar gael yn yr ysgol trwy Ysgol Chwarae Montessori.	3 sylw
20	Dewis rhieni	Mae ein dewis rhieni yn cael ei gymryd i ffwrdd.	2 sylw
21	Safle'r ysgol	Beth fydd yn digwydd i safle'r ysgol petai'r ysgol yn cau?	2 sylw
22	Y Broses Ymgynghori	Nid oedd unrhyw ymgysylltu â'r gymuned.	1 sylw



4.5 Amlygodd y dadansoddiad o ba mor aml y mae materion yn cael eu codi yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan blant a phobl ifanc y materion canlynol:

Safle	Mater	Disgrifiad	Amllder y mater a godwyd
1	Agweddau cadarnhaol yr ysgol ei hun	Mae gan yr ysgol nifer o bethau cadarnhaol, mae'n ysgol deuluol, ac mae'n ysgol gymunedol hyfryd. Mae'r ysgol mewn adeilad hyfryd. Mae gan yr ysgol staff addysgu cefnogol gwych hyfryd. Ein bod yn ysgol bach a all wneud llawer o bethau, rydym yn codi llawer o arian i elusen, rydym yn cael llawer o glybiau ar ôl ysgol.	83 sylw
2	Effaith ar ddisgyblion	Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion. Pryder y bydd grwpiau cyfoedion a brodyr a chwirydd yn cael eu gwahanu, nid yw lles emosiynol wedi ei ystyried, y gofid y byddai cau'r ysgol yn ei gael arnom ni, pryder ynghylch ffrindiau'n cael eu gwahanu.	82 sylw
3	Cysylltiadau teuluol gyda'r ysgol	Dylai brodyr a chwirydd fod yn gallu mynychu'r ysgol. Mae llawer o gysylltiadau teuluol â'r ysgol. Mae nifer o deuluoedd wedi mynychu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi bod yn y pentref ers cannoedd o flynyddoedd.	28 sylw
4	Awgrymiadau eraill: Ffederasiwn ar gyfer yr ysgol	Dylai'r ysgol allu ystyried creu Ffederasiwn gydag Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn. Mae tystiolaeth y byddai Ffederasiwn yn gweithio gan fod y Pennaeth presennol yn cael ei rannu ar hyn o bryd gydag Ysgol Parc Y Llan, rydym yn arbed arian.	13 sylw
5	Effaith ar Staff Addysgu	Pryder am yr hyn fydd yn digwydd i'r staff Addysgu a chefnogi yn yr ysgol.	10 sylw
6	Effaith ar y gymuned	Byddai cau'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar y gymuned leol. Mae'r ysgol wrth galon y gymuned. Byddai cau'r ysgol yn lladd ysbryd y gymuned. Mae'r ysgol wedi bod yn y pentref ers cannoedd o flynyddoedd.	8 sylw
7	Dogfen Ymgynghori	Nid yw'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn gywir. Ni fyddai nifer y disgyblion yn yr ysgol yn ffitio yn unrhyw un o'r ysgolion eraill.	4 sylw

8	Safle'r ysgol	Beth fyddai'n digwydd i adeilad yr ysgol os bydd yn cau?	4 sylw
9	Darpariaeth amgen a safonau addysgol	Nid oes digon o le i'r cohort llawn drosglwyddo i Ysgol Parc y Llan.	2 sylw
10	Datblygiad Tai	Nid yw datblygiadau tai lleol yn yr ardal leol wedi cael eu hystyried yn llawn.	1 sylw
11	Gwybodaeth ariannol	Ni fyddai cymaint a hynny o arbedion.	1 sylw

4.6 Mae dadansoddiad o amllder materion sy'n cael eu codi o fewn yr ohebiaeth plant a phobl ifanc a dderbyniwyd gan Gynghorau Ysgol yn tynnu sylw at y materion canlynol:

Safle	Mater	Disgrifiad	Pa mor aml y codwyd y mater
1	Effaith ar ddisgyblion	<p>Sylwadau disgyblion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion.</li> <li>• Pryder y byddai grwpiau cyfoedion a brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu.</li> <li>• Nid yw lles emosiynol wedi ei ystyried.</li> <li>• Y gofid y byddai cau'r ysgol yn ei achosi i ni.</li> <li>• Pryder am ffrindiau'n cael eu gwahanu.</li> <li>• Tristwch a dicter petai'r ysgol yn cau.</li> <li>• Byddai'n rhyfedd</li> <li>• Ni fyddai'r athrawon newydd yn ein hadnabod yn dda iawn.</li> <li>• Yn bryderus ynglŷn â cholli ffrindiau presennol.</li> </ul> <p>Terminoleg arall a ddefnyddir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Torri calon, trawma, dinistriol, lletchwith, brawychus, nerfus a swil</li> </ul>	144 sylw
2	Sylwadau cefnogi'r cynnig	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Emosiynau cymysg.</li> <li>• Yn hoffi gwneud ffrindiau newydd.</li> <li>• Gallai fod yn iawn.</li> </ul>	40 sylw

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Efallai y bydd yn braf cael athrawon newydd.</li> <li>• Byddwn yn hoff iawn o wneud ffrindiau newydd.</li> </ul>	
3	Awgrymiadau eraill	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylem aros ar agor ac aros gyda'n gilydd</li> <li>• Dylem uno ag ysgol arall</li> <li>• Adeiladu estyniad</li> <li>• Gallem arbed arian</li> <li>• Mae ein pennaeth newydd yn gweithio mewn ysgol arall: dylai hynny arbed arian</li> <li>• Gallent wneud rhywfaint o godi arian</li> <li>• Gallent gael mwy o ddisgyblion</li> </ul>	31 sylw
4	Agweddau cadarnhaol yr ysgol ei hun	<p>Sylwadau disgyblion</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae sawl peth cadarnhaol am yr ysgol, mae'n ysgol deuluol.</li> <li>• Mae'n ysgol gymunedol hyfryd. Mae'r ysgol mewn adeilad hyfryd.</li> <li>• Mae gan yr ysgol staff addysgu cefnogol gwych hyfryd.</li> <li>• Rydym yn ysgol fechan sy'n gallu gwneud amryw o bethau</li> <li>• Rydym yn codi llawer o arian i elusen ac mae gennym nifer o glybiau ar ôl ysgol.</li> <li>• Rydym yn gyfeillgar ac yn hapus.</li> <li>• Rydym yn Eco-ysgol.</li> </ul>	18 sylw
5	Effaith ar Staff Addysgu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryder am yr hyn fydd yn digwydd i'r staff Addysgu a chefnogi yn yr ysgol.</li> </ul>	11 sylw
6	Effaith ar Ysgolion Eraill a Effeithir	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai gennym rai pryderon am yr effaith ar ein hysgol.</li> <li>• Mae gennym ddosbarthiadau llawn a rhai dosbarthiadau gyda lleoedd gwag a byddem yn poeni am y dosbarthiadau llawn.</li> <li>• Rydym yn rhannu ein pennaeth gydag Ysgol Llanfynydd ar hyn o bryd - beth ydym yn ei gael yn ôl.</li> <li>• A fydd yna fws mwy o Goed-llai i'n hysgol?</li> </ul>	7 sylw
7	Effaith ar y gymuned	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'n rhwygo'r galon allan o'r gymuned.</li> <li>• Byddai'r pentref yn hollol wag.</li> <li>• Mae gennym llawer o wasanaethau yn yr eglwys leol.</li> </ul>	5 sylw

8	Datblygiad Tai	<ul style="list-style-type: none"> <li>Beth am y datblygiadau tai newydd yn yr ardal leol?</li> </ul>	1 sylw
9	Gofal plant	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan yr ysgol glwb brechwast a chlwb ar ôl ysgol da, nid oes un o'r rhain ym mhob ysgol.</li> </ul>	1 sylw

4.5 Mae ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd ar gael yn **Atodiad E**.

## 5.0 Ffurflenni ymateb a gohebiaeth

5.1 Cafodd y ffurflen ymateb safonol ei chynllunio i sefydlu:

- a oedd pobl o blaid y cynnig ai peidio;
- ym mha rinwedd roeddent yn ymateb;
- a oes ganddynt gysylltiad â'r ysgol ai peidio;
- pa awgrymiadau eraill fyddai ganddynt ar gyfer cynnal addysg yn yr ardal; ac
- a oeddent yn awyddus i wneud unrhyw sylwadau eraill.

5.2 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ffurflen ymateb safonol wedi'i nodi yn **Atodiad F**

5.3 Ar y ffurflenni ymateb, gofynnem i bobl i gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant, llywodraethwr, athro, staff cymorth, preswlydd lleol neu arall. Amlinellir manylion yr ymatebwyr yn **Atodiad F**.

## 6.0 Ymateb gan Estyn

Amlinellir y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor iddynt isod. Mae ymateb llawn gan Estyn wedi'i nodi yn **Atodiad G**.

Sylw Estyn	Sylwadau sydd angen eu hateb
Mae'r cynnig yn debygol, fan lleiaf, o gynnal y safonau presennol o ddarpariaeth addysg yn yr ardal.	Amh.
Byddai digon o leoedd heb eu llenwi i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfynydd ar hyn o bryd. Mae'r cynigydd wedi dangos gallu o fewn y pedair ysgol bresennol i reoli'r galw cynyddol hwn am leoedd ysgol.	Amh.
Mae'r cynnig yn amlinellu manteision ac anfanteision disgwylidig pob opsiwn yn erbyn y ffactorau allweddol, sef gwelliant addysgol, adeiladau addas, lleoedd heb eu llenwi, adnoddau sy'n lleihau ac arweinyddiaeth ysgolion gwydn.	Amh.

Mae'r cynigydd hefyd wedi cydnabod effaith bosibl cau ar y gymuned leol ac wedi cwblhau asesiad effaith ar y gymuned.	Amh.
Mae'r cynnig yn amlinellu'n briodol y rhesymau ar gyfer anwybyddu dewisiadau eraill a'r rhesymau dros y dewis maent yn ei ffafrio. Mae'r Awdurdod Lleol yn credu bod y manteision tymor hirach ar gyfer disgyblion yn drech nac unrhyw anfanteision	Amh.
Mae'r cynigydd wedi nodi risgiau perthnasol sy'n ymwneud â'r cynnig ac wedi amlinellu'n glir sut y bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r cynigydd wedi nodi'n glir sut y byddant yn rheoli'r risg nad yw rhieni yn gallu dewis yr ysgol amgen y maent yn ffafrio.	Bydd cylch derbyn pwrpasol yn cael ei gynnal gan dîm Mynediad Sir y Fflint yn unol â'i bolisi derbyn. Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei ddogfennau ymgynghori bod digon o gapasiti yn y rhwydwaith ysgolion lleol i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Llanfynydd pe bai'n cau. Fodd bynnag, gellir sefydlu lleoedd ychwanegol os oes angen yn Ysgol Parc y Llan, Treuddyn.
Mae'r cynigydd wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar drefniadau teithio disgyblion a'u gallu i gael mynediad at y ddarpariaeth	Cytuno
Mae'r cynigydd wedi cwblhau asesiad effaith manwl ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.	Cytuno
Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi dadansoddiad manwl o arolwg adeiladu ac eiddo diweddaraf pob ysgol. Mae'r rhain yn dangos bod pob ysgol mewn cyflwr boddhaol tebyg sy'n addas i gyflwyno'r cwricwlwm cynradd yn effeithiol	Cytuno
Mae'r cynigydd wedi cynnal asesiad effaith cydraddoldeb manwl sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau diamddiffyn yn fanwl gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion addysg arbennig ac anawsterau symud. Lle maent ar gael, mae'r sylwadau o'r adroddiadau Estyn mwyaf diweddar o bob un o'r darparwyr amgen, yn barnu fod eu darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.	Cytuno
Mae'r cynigydd yn cydnabod yr her ychwanegol posibl y bydd newid yn ei olygu i lawer o ddisgyblion ac yn iawn i ystyried sut y byddai'r cyfnod pontio yn cael ei reoli yn llwyddiannus ar gyfer y grwpiau mwy diamddiffyn hyn o ddysgwyr	Cytuno

## 7.0 Ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol

At ei gilydd, daeth 5 o ymatebion i law cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol

Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol i ymateb i'r ymgynghoriad:

[Amlinelliad o Ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol](#)

Rhif	Math o Ymateb	Ymateb gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol	
		ACau	ASau
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0	0
2	Llythyrau a negeseuon E-bost	1	4
Cyfanswm		1	4

Gellir gweld y llythyrau gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol a'r ymatebion gan yr awdurdod yn **Atodiad H**.

### 8.0 Ymatebion gan Lywodraethwyr

At ei gilydd, daeth 5 o ymatebion i law gan lywodraethwyr cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd llywodraethwyr i ymateb i'r ymgynghoriad:

#### Dadansoddiad o'r Ymatebion gan Lywodraethwyr

Rhif	Math o Ymateb	Nifer o ymatebion gan Lywodraethwyr
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	1
2	Llythyrau a negeseuon E-bost	4
Cyfanswm		5

Gellir gweld yr ohebiaeth gan lywodraethwyr yn **Atodiad I**.